

### Disgyblu Myfyriwr: Rhai enghreifftiau o Gosbau Categori 2

Rheol	Enghraifft	Cosbau posib
2.3 Rhaid i fyfyrwyr beidio â dwyn anfri ar y Brifysgol neu achosi unrhyw atebolrwydd ar ran y Brifysgol.	Rhoi gwybodaeth ffug i gyflogwyr neu eraill am gymwysterau academiaidd a ddyfarnwyd gan y Brifysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diarddel dros dro neu am byth</li> <li>• Tynnu cymwysterau academiaidd a roddwyd gan y Brifysgol yn ôl</li> <li>• Rhybudd ysgrifenedig</li> <li>• Myfyrdod ysgrifenedig</li> <li>• Ymddiheuriad i'r cyflogwr neu'r unigolyn a gafodd y wybodaeth ffug</li> </ul>
2.9 Rhaid i fyfyrwyr beidio ag ymddwyn mewn modd treisgar, anwedus, anhrefnus na bygythiol, nac enllibio a sarhau myfyrwyr, staff neu unigolion eraill yn llafar neu'n ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol a dylai myfyrwyr dalu sylw dyledus i'r Cod Myfyrwyr ar Urddas a Pharch a Chanllawiau'r Brifysgol ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol.	Camymddwyn corfforol, camymddwyn rhywiol neu ymddygiad sarhaus lle y mae'r weithred yn fyrhoedlog, heb ei chynllunio ymlaen llaw, ac mae lefel y niwed corfforol neu emosiynol y dioddefwr yn isel a lle na fu pryderon cyn yr achlysur dan sylw.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhybudd ffurfiol</li> <li>• Ymddiheuriad, os yw'r unigolyn sy'n adrodd y camymddwyn yn dymuno hynny</li> <li>• Myfyrdod ysgrifenedig</li> </ul>
	Camymddwyn difrifol, yn gorfforol neu'n rhywiol, neu ymddygiad sarhaus difrifol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhybudd ffurfiol</li> <li>• Cyfyngu ar hawl yr unigolyn i ddefnyddio adnoddau neu ddod i'r campws</li> <li>• Diarddel am byth neu dros dro</li> <li>• Ymddiheuriad, os yw'r unigolyn sydd wedi rhoi gwybod am y camymddwyn yn dymuno hynny</li> </ul>
2.19.1 Mae pob myfyriwr o dan rwymedigaeth gyfreithiol i gymryd gofal rhesymol o'u iechyd a'u diogelwch eu hunain, a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu'u diffyg gweithredu wrth astudio yn y Brifysgol.	Heb ddilyn cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch mewn labordy ar ôl cael rhybudd am y canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diarddel dros dro neu am byth, neu amodau'n cael eu gosod ar yr hawl i ddefnyddio labordai'r Brifysgol</li> <li>• Ymddiheuro wrth yr aelod o staff adrannol sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch</li> </ul>